
# Pecyn Cynllun Cysgodi Cynradd



# GWOBRAU TIR NA N-OG AWARDS 2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# CYNNWYS


**Y RHESTR FER** 3

**SBARDUN SGWRS** 5

**GWEITHGAREDDAU**
*Am Gymro!* 6

**ADNABOD AWDUR**
Medi Jones-Jackson 7

**ADNABOD DARLUNYDD**
Telor Gwyn 9

**GWEITHGAREDDAU**
*Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen* 10

**ADNABOD AWDUR A DARLUNYDD**
Siôn Tomos Owen 11

**GWEITHGAREDDAU**
*Cyfri Defaid* 13

**ADNABOD AWDUR**
Enlli Lewis 14

**ADNABOD DARLUNYDD**
Gareth Brown 16

**GWEITHGAREDDAU**
*Llyfr Sgrap Macs Sion* 17

**ADNABOD AWDUR**
Mari Lovgreen 18


**SYLWADAU'R BEIRNIAID** 20

**MATRICS SGORIO** 21

**NODIADAU** 22

**CARDIAU PLEIDLEISIO** 23

# Y RHESTR FER





## *Am Gymro!*

Ffuglen

**Awdur: Medi Jones-Jackson**
**Darlunydd: Telor Gwyn**
**(Y Lolfa)**

Addas i ddarllenwyr 7–11 oed

Llyfr deniadol, llawn darluniau a hwyl am 13 o ddynion ysbrydoledig o Gymru sy'n arbenigwyr yn eu meysydd penodol ac yn dod o bob rhan o Gymru. Ceir hanesion am: Gareth Bale, Billy Boston, Dr Ganesh Subrahmanyan, Hedd Wyn, Gwynfor Evans, T. Llew Jones, Dafydd Iwan, Eric Jones, Kyffin Williams, Richard Burton, Clough Williams-Ellis, Lyn Evans a Geraint Thomas. Yng nghefn y llyfr, ceir posau a gweithgareddau.





## *Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*

Ffuglen

**Awdur a darlunydd:**
**Siôn Tomos Owen**
**(Atebol)**

Addas i ddarllenwyr 9–11 oed

Ar wyliau mae Gerwyn – bachgen sy'n casáu darllen – yn mynd i siop ddiddorol, a'r unig beth yn y siop yw hen lyfr mawr mewn casyn gwydr. Mae Gerwyn yn agor y llyfr yn slei bach ac yn sydyn yn cael ei lyncu i mewn i'w stori! Mae'n deffro mewn gwlad anghyfarwydd ac yn cael anturiaethau gwyllt a gwallgof!





## *Cyfri Defaid*

Ffuglen | Llyfr stori-a-llun

**Awdur: Enlli Lewis**
**Darlunydd: Gareth Brown**
**(Atebol)**

Addas i ddarllenwyr 3–7 oed

Ar ôl profi ei ddawn yn cyfri, mae Mostyn yn wynebu her newydd, sef cyfri'r praidd bob dydd i sicrhau bod pob un ddafad ac oen yn saff. Ond er ei glyfrwch, mae cyfri'r defaid heb gwympo i gysgu yn AMHOSIB! Ymunwch â Mostyn a'r bugail wrth iddyn nhw ddod o hyd i ateb i'r broblem!




## *Llyfr Sgrap Macs Sion*

Ffuglen | Dyddiadur

**Awdur: Mari Lovgreen**
**Darlunydd: Cai Tudur**
**(Y Lolfa)**

Addas i ddarllenwyr 7–11 oed

Croeso i lyfr sgrap boncyrs sy'n llawn cyfrinachau, breuddwydion, rhestrau, triciau, dŵdls, jôcs ... snot a phw! Cawn fynd ar daith gyda Macs Sion i'r eisteddfod gylch, i Langrannog ac ar ei ddêt cyntaf! Os wyt ti'n hoffi Pokemon a Roblox ac yn casáu dawnsio gwerin, dyma'r llyfr i ti!

**Cofiwch fod rhai o'r llyfrau ar gael yn ddigidol fel e-lyfrau hefyd. Ewch i'ch siop lyfrau, llyfrgell leol neu ein gwefan ffolio.cymru i ddod o hyd i'r teitlau uchod ac am fwy o wybodaeth.**

# SBARDUN SGWRS





## Cwestiynau a Phwyntiau Trafod

- Beth wnaethoch chi ei fwynhau fwyaf am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut basech chi'n ei newid?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Disgrifiwch y llyfr mewn tri gair.
- Petaech chi'n cwrdd â'r awdur, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddo neu iddi?
- Ydych chi'n credu bod y teitl yn gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n galw'r llyfr?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Yn eich barn chi, fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio ar y stori? Ym mha ffordd?
- Petai tri chopi o'r llyfr gennych i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma?
- Beth yw eich barn chi ar y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?
- Ydych chi'n hoffi'r darluniadau / lluniau? Pam hynny?
- Oes gennych chi hoff lun yn y llyfr? Pam mai dyna yw eich hoff lun?
- Yn eich barn chi, beth mae'r lluniau yn ychwanegu at y stori?

# GWEITHGAREDDAU

## *Am Gymro!*






### Gweithgaredd 5 munud

Ar dudalen 20, mae rhestr o ieithoedd Ewropeaidd, gan gynnwys Almaeneg, Ffrangeg ac Eidaleg. Gallwch chi ddefnyddio'r we neu lyfrau yn y dosbarth i gyfieithu'r termau canlynol i dair iaith, o leiaf, o'ch dewis.

- Bore da
- Diolch
- Sut wyt ti?
- Darllen
- Nos da

**MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD**

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Dyniaethau, Iechyd a Lles a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

### Gweithgaredd 10 munud

Ar dudalen 19 mae hanes y pensaer arloesol Clough Williams-Ellis. Roedd ganddo foto personol: “Dathlu'r gorffennol, harddu'r presennol ac adeiladu ar gyfer y dyfodol.”

Beth am greu moto newydd ar gyfer eich ysgol chi, neu ar gyfer un o'r dynion eraill yn y llyfr?

### Gweithgaredd 30 munud

Gwnewch restr o fan geni pob un person yn y llyfr. Yna, mapiwch y lleoliadau ar fap o Gymru. Gallwch ddefnyddio atlas i'ch helpu. Mae yna rai bobl sydd wedi'u geni tu allan i Gymru hefyd. Pwy yw'r dynion hynny ac o le maen nhw'n dod? Ble oedden nhw'n byw yng Nghymru? Allwch chi fapio'r lleoliadau hynny ar y map?

### Gweithgaredd Gwers Gyfan

Mae'r bobl yn y llyfr yn arwyr am wahanol resymau. Oes gen ti arwr neu arwres? Beth am greu pennod ychwanegol sy'n dathlu dy arwr/arwres di? Dilyna'r strwythur yma:

- Enw
- Man geni
- Addysg
- Swydd
- Ffaith difyr
- 3 ansoddair i ddisgrifio dy arwr/arwres
- Dy reswm personol dros ddewis y person fel arwr/arwres?

Cofia dynnu llun o dy arwr/arwres i gyd-fynd â'r bennod!

# MEDI JONES-JACKSON




## Cyflwynwch eich hun:

Mi wnes i dyfu fyny yn Llanrwst ond dwi bellach yn byw yn Bow Street ger Aberystwyth. Dwi'n fam i ddau – Anest ac Elis – sydd yn caru darllen gymaint â fi, a *beagle* bach direidus o'r enw Indy sydd wastad yn llwglyd. Yn fy amser sbâr dwi'n caru darllen (wrth gwrs!), gwylio ffilmiau efo fy ngŵr Paul, campio yn fy nghamper-fan Frida, nofio a phadlfyrddio. Dwi ddim yn cofio amser lle doeddwn i ddim yn sgwennu; dechreuais yn ifanc i helpu efo fy sillafu (dwi'n dal yn rhoi llythrennau yn y llefydd anghywir weithiau ond dyw hynny byth yn stopio fi rhag sgwennu!). Fy hoff fwyd ydi wy wedi'i ferwi.

## Cyflwynwch eich llyfr:

Llyfr llawn hwyl am 13 o ddynion ysbrydoledig o Gymru sy'n arbenigwyr yn eu meysydd penodol ac yn dod o bob rhan o Gymru: Gareth Bale, Billy Boston, Dr Ganesh Subrahmanyan, Hedd Wyn, Gwynfor Evans, T. Llew Jones, Dafydd Iwan, Eric Jones, Kyffin Williams, Richard Burton, Clough Williams-Ellis, Lyn Evans a Geraint Thomas. Yng nghefn y llyfr mae posau a gweithgareddau hefyd i'r darllenwyr ifanc fwynhau a rhoi eu stamp eu hunain ar y llyfr. Os rydych chi wedi joio'r llyfr yma cofiwch am y llyfrau eraill yn y gyfres – *Genod Gwych a Merched Medrus* a *Genod Gwych a Merched Medrus 2*.

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

Ar hyn o bryd, *The Boy who Dreamed Dragons* gan Caryl Lewis.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Scout o *To Kill a Mockingbird*.

**Hoff air?**

Kakorrhaphiophobic.

**Hoff fwyd?**

Dairy Milk Chocolate.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Jôcs gwael fy ngŵr.

**Top tip i ddarpar awduron?**

Daliwch ati i ysgrifennu.

# MEDI JONES-JACKSON



## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Llanrwst yng ngogledd Cymru – tref hardd mewn dyffryn hardd.

## Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Y peth gorau am ysgol yw'r ffrindiau sydd o'ch amgylch, a'r rhyddid i ddysgu a chwarae a chael hwyl. Mae gen i gymaint o atgofion hapus o fy nghyfnod yn yr ysgol. I mi, y peth gwaethaf am yr ysgol oedd y gwyliau haf – chwe wythnos o boeni y buaswn i'n anghofio sut i ysgrifennu. Chollais i ddim un diwrnod o'r ysgol uwchradd mewn saith mlynedd.

## Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Cymaint o bethau gwahanol. Dyna'r peth gorau am fod yn ifanc – mae gennych gymaint o opsiynau. Roeddwn i'n gwirioni ar ffilmiau ac felly am fod yn actores neu sgriptiwr ffilm. Dwi'n dal i freuddwydio am ennill Oscar.

## Beth yw eich diddordebau?

Dwi wrth fy modd yn cerdded fy nghi, Indy. Corhelgi (*beagle*) yw e, felly mae angen llawer o ymarfer corff arno, ac mae'r ddau ohonon ni'n mynd i grwydro ar y bryniau ger fy nghartref. Mae e mor ddrygionus, ond dwi'n ei garu. Dwi hefyd yn mwynhau darllen. Dwi'n darllen bob nos cyn mynd i'r gwely, ac yn darllen i fy mhlant, Anest ac Elis. Tra bod gan rai ddiemwntau a gemau, mae gen i lyfrau.

## Beth yw'r peth gorau am fod yn awdur?

Y peth gorau yw'r cyfle i deithio ar hyd a lled Cymru i siarad â darllenwyr am y menywod anhygoel sy'n *Genod Gwych* a *Merched Medrus*. Dwi'n gobeithio fy mod i'n cyfleu iddyn nhw fy angerdd am hanes a darllen. Mae darllen yn un o sgiliau gwych bywyd, a gall llyfr da fynd â chi i unrhyw le.

# TELOR GWYN



## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Aberystwyth.

## Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Hoffi: Chwaraeon, dylunio a thechnoleg, hanes. Dwi wastad wedi hoffi dysgu pethau newydd.
Casáu: Wnes i stryglo lot gydag emosiwn a bwlio yn yr ysgol, felly wnes i ddim mwynhau lot. Dwi newydd gael diagnosis ADHD, sy'n esbonio pam doeddwn i ddim yn deall emosiwn a sut oedd pobl eraill yn ymddwyn.

## Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Pensaer.

## Beth yw eich diddordebau?

Pob math o chwaraeon yn enwedig pêl-droed a rhedeg, darllen, ffilmiau, a Lego bob Nadolig!

## Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn ddarlunydd?

Peth gorau: Dod â stori'n fyw ar y dudalen. Dwi wastad wedi stryglo i fynegi fy hunan drwy eiriau. Mae lluniau wastad wedi bod yn gliriach i fi, a llai o siawns i bobl gamddeall. Mae 'na ddyfyniad gan y pensaer Le Corbusier: "I prefer drawing to talking. Drawing is faster, and leaves less room for lies."
Peth gwaethaf: Tudalen wag.

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

*Mort*, Terry Pratchett.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Death, o gyfres Discworld Terry Pratchett.

**Hoff le?**

Tallow Beach (Byron Bay, Awstralia), neu'r gwely.

**Superpower o ddewis?**

Gallu rhedeg yn gynt.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Cŵn a ffrindiau.

**Hoff fwyd?**

Fi'n joio bwyta, felly unrhyw beth a dweud y gwir. Falle *lasagne*?

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**

Ffilm: *Lord of the Rings* / Teledu: *University Challenge*.


**Hoff air?**

Amser cinio.

**Top tip i arlunwyr y dyfodol?**

Jyst tynnwch luniau – unrhyw bryd, unrhyw le.

# GWEITHGAREDDAU




## *Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*

### Gweithgaredd 5 munud

Edrycha ar sylwadau'r beirniaid ar dudalen 20 yn y pecyn hwn. Wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno?

### Gweithgaredd 10 munud

Darllena'r paragraff cyntaf ar dudalen 230 sy'n disgrifio'r Barwn. Ceisia dynnu llun ohono i gyd-fynd gyda'r disgrifiad.

### Gweithgaredd 30 munud


Darllena'r bennod gyntaf. Yna, ailysgrifenna'r bennod yn y person cyntaf o dy safbwynt di yn yr ystafell ddosbarth.

### Gweithgaredd Gwers Gyfan

"Mae gan bopeth yn fy siop stori i'w dweud" meddai'r Barwn ar dudalen 41. Beth am feddwl am wrthrych a chreu llinell neu fwrdd stori – efallai mewn arddull nofel graffig – yn adrodd hanes a hud y gwrthrych? Dyma ambell syniad: cist aur, oriawr, map, cragen, hadau, carped hud neu gleddyf.

**MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD**

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a'r Celfyddydau Mynegiannol.



# SIÔN TOMOS OWEN



## Cyflwynwch eich hun:

Siôn Tomos Owen dwi a dwi'n awdur, darlunydd, tiwtor a fi yw Bardd Plant Cymru 2025–27. Dwi 'di bod yn gweithio'n llawrydd am ddeng mlynedd yn gwneud gwahanol bethau creadigol, o gyflwyno cyfresi teledu a radio a sgwennu llyfrau a barddoniaeth i gynnal gweithdai rownd Cymru gyda fy nghwmni CreaSion. Roedd fy nghasgliad barddoniaeth cyntaf, *Pethau Sy'n Digwydd*, ar restr fer Llyfr y flwyddyn 2025 ac mae fy llyfr i ddysgwyr, *Y Fawr a'r Fach: Straeon o'r Rhondda* ar gwricwlwm newydd TGAU Cymraeg Ail Iaith. Dwi'n byw yn Nhreorci, Rhondda Fawr, gyda fy ngwraig a'n dwy ferch.

## Cyflwynwch eich llyfr:

Mae fy llyfr am fachgen o'r enw Gerwyn sydd yn casáu darllen gymaint mae'n gwrthod darllen unrhyw beth. Un diwrnod ar ei wyliau mae'n mynd i siop ryfedd iawn, siop straeon Barwn E. Bychnod y 5ed, sy'n dangos iddo y Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen ac mae'n disgyn – yn llythrennol – i ganol antur fwyaf rhyfedd ei fywyd. Gyda help Dr Dan Jerys a chreadur blewog o'r enw'r Bronfwystfil, mae'n rhaid i Gerwyn geisio ffeindio'i ffordd adref trwy'r twneli tywyll gan osgoi hwyaid anferth, y Pŵlwod, mynyddoedd sy'n siarad, ysbrydion creulon a zombis!

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

*Matilda* – Roald Dahl.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Holden Coulfield o *Catcher in the Rye*.

**Hoff fwyd?**

*Spaghetti carbonara* gyda tryffl neu wystrys.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**

Ffilm: *It's a Wonderful Life*. Cyfres deledu: *Band of Brothers*.

**Superpower o ddewis?**

Gallu siarad pob iaith yn y byd.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Bwyd da, chwerthin fy mhlant a dod adref i'r Rhondda dros y mynyddoedd.

**Swydd ddelfrydol tasech chi dim yn awdur?**

Dwi'n lwcus iawn i wneud fy swydd ddelfrydol, sef dewis a dethol beth dwi eisiau gwneud, cael amser cinio hir a gallu mynd â 'mhlant i'r ysgol bob dydd.

**Top tip i ddarpar awduron?**

Sgwennwch a darllenwch! A stopiwch sgwennu pan mae'n stopio bod yn hwyl – ewch am dro, a dewch 'nôl ati wedyn.

**Hoff le?**

Treorci!

**Hoff air?**

Ansbara-digaethus.

# SIÔN TOMOS OWEN

## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Ges i fy magu yn Nhreorci, Rhondda Fawr, lle dwi'n dal i fyw, ond i fyny ar ochr y mynydd yn Mwthyn Fferm Glyncolli.

## Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i'n hoffi celf a chwaraeon, yn enwedig rygbi a phêl-fasged, ac yn casáu Mathemateg ... a dwi dal yn ei gasáu!

## Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Ro'n i eisiau bod yn artist, a dwi'n lwcus iawn achos mi rydw i'n rhyw fath o artist nawr!

## Beth yw eich diddordebau?

Dwi'n caru darllen a gwylio cyfresi teledu, coginio (yn enwedig bwyd Eidalaidd fel pitsa a phasta) a chreu pethau.


## Beth yw'r peth gorau am fod yn awdur?

Y peth gorau yw gallech chi fynd â'ch cymeriadau i ble bynnag hoffech chi yn y bydysawd, o Pluto i gesail drewllyd Dr Pangangoli, brenin y Sloglobs o wlad y picls, yna falle fydd pobl yn joio darllen amdanyn nhw rhywbryd. Dwi'n lwcus achos dwi hefyd yn gallu tynnu lluniau ar gyfer fy llyfrau i.
Y peth gwaethaf yw ffeindio'r amser i sgwennu, a weithiau pan rydych chi'n ffeindio'r amser dyw'r geiriau ddim eisiau dangos ar y dudalen.



# GWEITHGAREDDAU

## *Cyfri Defaid*




### Gweithgaredd 5 munud

Ar dudalen 5, mae Mostyn yn medru cyfri i gant – ac am yn ôl. Pa mor gyflym fedri di gyfri i gant – ac am yn ôl?

### Gweithgaredd 10 munud

Gan ddilyn trefn y brawddegau canlynol ar dudalen 32:

‘Ti wir yw’r oen mwyaf clyfar erioed!’

‘Chi wir yw bugail gorau Cymru!’

Gyda ffrind, beth am feddwl am eiriau perthnasol i ddisgrifio dy ffrind, e.e:

‘Ti wir yw’r ffrind mwyaf doniol erioed!’


‘Ti wir yw pêl-droediwr gorau’r ysgol!’

### Gweithgaredd 20 munud

Cer drwy’r llyfr a gwna dabl o’r holl anifeiliaid rwyt ti’n gallu eu gweld ar un ochr, ac unrhyw anifeiliaid ychwanegol fedri di feddwl amdanyn nhw ar yr ochr arall.

### Gweithgaredd 30 munud

Beth am ychwanegu golygfa newydd i’r stori? Cer ati i dynnu llun o Mostyn yn gwneud gweithgaredd gwahanol ac ychwanega frawddeg i gyd-fynd â’r stori. Er enghraifft, Mostyn yn mynd i … Langrannog / Glan-llyn, i’w wers biano neu i’r Eisteddfod.



**MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD**

Mathemateg a Rhifedd, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Y Celfyddydau Mynegiannol ac Iechyd a Lles.

# ENLLI LEWIS



## Cyflwynwch eich hun:

Helô! Enlli Lewis ydw i, awdur *Cyfri Defaid*. Cefais fy magu ar fferm yng Nghaerfyrddin. Ar ôl cyfnod yn Llundain, symudais i a fy ngŵr i Galiffornia i gael dipyn o haul! Heddiw, dwi'n gweithio ym maes iechyd byd-eang ac yn mwynhau ysgrifennu straeon sy'n fy atgoffa o Gymru. *Cyfri Defaid* yw fy llyfr cyntaf i blant, ac roedd ysgrifennu am anturiaethau Mostyn yn bleser pur!

## Cyflwynwch eich llyfr:

Mae Mostyn yr oen wedi profi ei fod yn glyfar iawn, ond mae ganddo her newydd – cyfri defaid y praidd i wneud yn siŵr fod pob un yn saff. Ond mae yna broblem. Bob tro mae Mostyn yn dechrau cyfri – 1, 2, 3 ... mae'n syrthio i gysgu! A all help o le annisgwyl achub y dydd?

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Rala Rwdins* gan Angharad Tomos.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Ceridwen, y wrach sy'n bwyta llyfrau yn Rala Rwdins!

**Hoff fwyd?**
Caws.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*C'mon Midffîld* – hen raglen Gymraeg am dîm pêl-droed di-glem.

**Superpower o ddewis?**
Bod yn anweledig er mwyn cael busnesu!

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Coesau tylluanod!

**Hoff le?**
Traethau Ynys Môn.

**Hoff air?**
Mwsogl.

**Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?**
Anturiaethwr neu ffotograffydd bywyd gwyllt.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Ceisiwch ysgrifennu rhywbeth – unrhyw beth! – bob dydd.

# ENLLI LEWIS

## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Cefais fy ngeni a'm magu yng Nghaerfyrddin ar fferm odro (dim defaid!).

## Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Roeddwn i wrth fy modd ag eisteddfodau. Atgof melys yw actio môr-leidr brawychus! Roeddwn i'n casáu gwersi llawysgrifen. Roedd fy llawysgrifen fel traed brain am flynyddoedd!

## Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?


Archaeolegydd yn yr Aifft.

## Beth yw eich diddordebau?

Rhedeg a dringo creigiau.

## Beth yw'r peth gorau am fod yn awdur?

Mae'n deimlad anhygoel pan fydd syniad am stori newydd yn eich taro, ond mae dewis enwau ar gyfer cymeriadau yn anodd!



# GARETH BROWN



## Cyflwynwch eich hun:

Dwi'n ddarlunydd, gyda chefndir mewn animeiddio a dylunio graffeg. Dwi'n byw yng Nghaerdydd gyda fy mhartner a'n dau fachgen.

## Cyflwynwch eich llyfr:

Dwi'n defnyddio hiwmor a dychymyg i greu darluniau doniol, gyda llawer o fynegiant a symudiad i wneud pobl yn hapus. Dwi'n mwynhau darlunio llyfrau lluniau i blant ac mae fy ngwaith wedi ymddangos mewn papurau newydd a chylchgronau fel *The Sunday Times* a *Glug Magazine*.

## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Caerdydd.

## Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Y rhan orau o'r ysgol oedd peidio gorfod gwisgo gwisg ysgol, dydw i ddim yn siŵr pam! Y rhan waethaf oedd gorfod aros y tu mewn yn ystod amser egwyl os oedd hi'n bwrw glaw.

## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Caerdydd.

## Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Cartwnydd i'r *Beano*.

## Beth yw eich diddordebau?

Dwi wrth fy modd yn chwarae drymiau.

## Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn ddarlunydd?

Y rhan waethaf yn bendant yw gwneud eich trethi eich hun, ond y rhan orau yw cael eich gofyn i dynnu lluniau o bethau gwirion.

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
Cyfres Mr Men gan Roger Hargreaves.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Mr Bump.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Bod yng nghanol byd natur gyda fy nheulu.

**Superpower o ddewis?**
Gallu sgwrsio ag anifeiliaid.

**Hoff fwyd?**
Ramen.

**Hoff le?**
Traeth Mwnt.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Back to the Future.*

**Hoff air?**
Llosgfynydd.

**Top tip i arlunwyr y dyfodol?**
Gwnewch lawer o ffrindiau sy'n yr un maes â chi.

# GWEITHGAREDDAU

## *Llyfr Sgrap Macs Sion*




### Gweithgaredd 5 munud

Fedri di ddatrys y cwis mathemateg ar waelod tudalen 48 (heb edrych ar yr atebion)?

### Gweithgaredd 10 munud

Beth am greu gêm ‘hwn neu llall’ dy hun fel yr un ar dudalennau 15, 20 a 59.

### Gweithgaredd 30 munud


Gwna gymeriad newydd fel Robo-ci (tudalen 63), a chreu comic dy hun amdano.

### Gweithgaredd Gwers Gyfan

Beth am fynd ati i ysgrifennu llythyr at ffrind yn seiliedig ar benwythnos / gwyliau cofiadwy, fel sydd i’w weld ar dudalennau 48 & 57.

**MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD**

Mathemateg a Rhifedd, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a’r Celfyddydau Mynegiannol.



# MARI LOVGREEN




## Cyflwynwch eich hun:

Yn wreiddiol o Gaernarfon, dwi bellach yn byw yn Llanerfyl ar ffarm efo fy ngŵr a fy mhlant 11 a 9 oed – Betsan ac Iwan. Dwi'n gyflwynydd teledu ers dros ugain mlynedd bellach ac erbyn hyn yn fwyaf prysur efo'r rhaglen *Cefn Gwlad*. Dwi wrth fy modd yn teithio dros Gymru yn cyfarfod cymeriadau arbennig iawn. Mae rhai hefyd yn fy ngalw'n awdur – ond dwi ddim yn siŵr os 'di'r nonsens dwi'n sgwennu yn haeddu'r teitl hwnnw!

## Cyflwynwch eich llyfr:

Mae *Llyfr Sgrap Macs Sion* yn llyfr sgrap bachgen 10 oed sy'n cynnwys pytiau dyddiadur, lot o restrau, hwn neu llall, jôcs a lot fawr o dŵdls gan yr arlunydd ifanc hynod dalentog Cai Tudur. Dwi'n credu'n gryf fod plant Cymru angen 'trash Cymraeg' – hynny yw, llyfrau gwirion sy'n hawdd i'w darllen ar ben eu hunain. Er yr holl sôn am pw, mae Macs hefyd yn trafod bob math o emosiynau a phrofiadau yn ei lyfr sgrap.

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Tracy Beaker* – Jacqueline Wilson.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Rowena – *Llyfr Glas Nebo*.

**Hoff le?**
Adra ar y ffarm efo cwmni ffrindiau a theulu, neu Gaernarfon.

**Hoff fwyd?**
Cinio dydd Sul cyw iâr Mam, efo mynydd o *cauliflower cheese*.

**Hoff ffilm / rhaglen deledu?**
*Titanic* a *Mabinogi-ogi-ogi*.

**Superpower o ddewis?**
Hedfan.


**Hoff air?**
Cysgu.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Y cwmni iawn.

**Swydd ddelfrydol tasech chi ddim yn awdur?**
*Food critic* – yn cael mynd o amgylch bwytai gorau'r byd.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Jyst sgwennwch. Trïwch beidio gorfeddwl am y peth.

# MARI LOVGREEN



## Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Geni ym Mangor, magu yng Nghaernarfon.

## Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Caru elfen gymdeithasol mynd i'r ysgol – wrth fy modd bod efo ffrindiau drwy'r dydd. Mi ro'n i hefyd yn rhan o dimau rygbi, pêl-rwyd a hoci'r ysgol. Fy hoff bynciau oedd Cymraeg, Celf, Saesneg ac Addysg Gorfforol. Do'n i ddim yn mwynhau Ffiseg na Mathemateg rhyw lawer. Na rhedeg traws gwlad.

## Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Do'n i ddim yn siŵr iawn – ond yn gwybod fy mod eisiau gweithio efo pobl – yn eu helpu mewn rhyw ffordd.

## Beth yw eich diddordebau?

Mynd allan am fwyd efo teulu neu ffrindiau da. Gwylio cerddoriaeth fyw a gwrando ar gerddoriaeth.


## Beth yw'r peth gorau am fod yn awdur?


Y peth gorau ydi cael mynd o amgylch ysgolion yn cyfarfod plant a chael blas ar eu dychymyg boncyrs nhw! Y peth gwaethaf, neu mwyaf dychrynllyd, ydi'r gair 'awdur'!!

# SYLWADAU'R BEIRNIAID

**Y beirniaid ar y panel Cymraeg ar gyfer 2026 oedd Rhys Dilwyn Jenkins (Cadeirydd), Helen Jones, Malachy Edwards a Loti Glyn. Dyma oedd eu sylwadau:**


Dyma lyfr ffeithiol a hwyliog sy'n ddeniadol ac afaelgar, yn datgelu hanes 13 Cymro blaenllaw o ran eu bywydau, eu gweithredoedd, a'r ffeithiau sydd yn eu gwneud yn ysbrydoledig.




Stori lawn antur hollol boncyrs sy'n llawn llwybrau annisgwyl; mae'r llyfr hwn yn mynd â'r darllenydd ar drywydd drwy fyd lliwgar sy'n llawn antur a ffantasi.

Darluniau gwych a stori ddoniol! Llyfr a wnaeth i mi chwerthin yn uchel drwy'r cyfan. Mae'n sicr o roi gwên ar wyneb pob plentyn ifanc wrth iddo gael ei ddarllen.







Chwip o lyfr am gymeriad annwyl a hoffus sy'n cofleidio'r darllenydd; byddwch yn cwympo i fyd llawn sbort a sbri gyda Macs Sion, gan ddilyn anturiaethau ei ffrindiau, ei deulu a'i athrawon drwy lygaid bachgen ifanc.


# MATRICS SGORIO

Efallai bydd sgorio'r llyfrau yn eich helpu i benderfynu pa lyfr yw'r gorau yn eich barn chi.

| Llyfr | Clawr<br>Broliant<br>/5 | Diwyg<br>Edrychiad<br>/5 | Arddull<br>Iaith<br>/5 | Cynnal<br>diddordeb<br>/5 | Cymeriadau<br><br>/5 | Cyfanswm<br><br>/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwestiynau | Ydych chi'n hoffi'r clawr?<br>Ydi'r broliant yn eich denu i ddarllen y llyfr?<br>Ydi'r clawr yn eich denu? | Ydych chi'n hoffi'r darluniau yn y llyfr?<br>Ydi'r darluniau yn ychwanegu at y stori?<br>Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol.<br>Ydych chi'n hoffi ffont y geiriau? Pa fath o ddarluniau mae'r awdur wedi eu defnyddio? e.e. chwareus, cyffrous, diddorol. | Pa fath o iaith mae'r awdur wedi ei defnyddio? e.e. tafodiaith, disgrifiadau, odlau.<br>Wnaethoch chi ddysgu unrhyw eiriau newydd wrth ddarllen y llyfr?<br>Oedd yr iaith yn rhy hawdd neu'n rhy anodd?<br>Oeddech chi'n deall yr iaith?<br>Oedd yr iaith yn ddiddorol? | Wnaethoch chi fwynhau'r llyfr?<br>Beth oedd yn cynnal eich diddordeb? e.e. doniolwch, antur, cymeriadau, gwybodaeth.<br>Oeddech chi'n awyddus i ddarllen y llyfr i gyd?<br>Ydi'r llyfr yn mynd i aros yn eich cof?<br>Ydi'r llyfr yn un gwreiddiol? | Pa fath o gymeriadau oedd yn y llyfr?<br>Oedd y cymeriadau yn rhai diddorol/credadwy?<br>Sut fyddech chi'n disgrifio'r cymeriadau?<br>Oedd y cymeriadau yn apelio atoch?<br>Oeddech chi'n gallu uniaethu â'r cymeriadau? | – |
| ***Am Gymro!*** | | | | | | |
| ***Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*** | | | | | | |
| ***Cyfri Defaid*** | | | | | | |
| ***Llyfr Sgrap Macs Sion*** | | | | | | |


# NODIADAU


**Defnyddiwch y dudalen hon ar gyfer unrhyw nodiadau hoffech chi eu hysgrifennu am y llyfrau.**
(Llungopïwch y dudalen yma i bob adolygwr.)









# CARDIAU PLEIDLEISIO

Nawr eich bod chi wedi darllen a thrafod y llyfrau sydd ar restr fer gwobr Tir na n-Og 2026, dyma'ch cyfle chi i bleidleisio dros y llyfr gorau, yn eich barn chi. Rhowch X yn y bocs i nodi'ch enillydd chi.

**Cofiwch bleidleisio yng nghategori Barn y Darllenwyr: tlws arbennig sy'n cael ei ddyfarnu gan blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Cysgodi Tir na n-Og.**

X

***Am Gymro!*** ☐

***Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*** ☐

***Cyfri Defaid*** ☐

***Llyfr Sgrap Macs Sion*** ☐

***Am Gymro!*** ☐

***Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*** ☐

***Cyfri Defaid*** ☐

***Llyfr Sgrap Macs Sion*** ☐

***Am Gymro!*** ☐

***Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*** ☐

***Cyfri Defaid*** ☐

***Llyfr Sgrap Macs Sion*** ☐

***Am Gymro!*** ☐

***Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*** ☐

***Cyfri Defaid*** ☐

***Llyfr Sgrap Macs Sion*** ☐

***Am Gymro!*** ☐

***Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*** ☐

***Cyfri Defaid*** ☐

***Llyfr Sgrap Macs Sion*** ☐

***Am Gymro!*** ☐

***Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen*** ☐

***Cyfri Defaid*** ☐

***Llyfr Sgrap Macs Sion*** ☐

**Beth am rannu eich profiad cysgodi ar y cyfryngau cymdeithasol?**

Cofiwch dagio ni:
@gwobrautirnanogawards
a defnyddiwch
yr hashnodau:
#CaruDarllen
#TNNO2026
#CysgodiTNNO2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

